Cynllun diben ar gyfer cyflawni diben cyhoeddus y BBC: Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

Diffiniad Ymddiriedolaeth y BBC o gylch gwaith y diben

Gall gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr ddibynnu ar y BBC i adlewyrchu'r cymunedau lu sy'n bodoli yn y DU. Mae'n bosibl bod y cymunedau hyn wedi'u seilio ar ddaearyddiaeth, ar ffydd, ar iaith neu ar ddiddordeb sy'n gyffredin iddynt, megis chwaraeon. Bydd y BBC yn ysgogi trafodaeth o fewn cymunedau'r DU a rhyngddynt ac yn annog pobl i fod yn rhan o'u cymunedau lleol.

Blaenoriaethau'r diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, wedi rhannu'r cylch gwaith hwn yn chwe blaenoriaeth benodol:

1 Cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau i weddill y DU.
2 Darparu ar gyfer gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU.
3 Dod â phobl ynghyd i rannu profiadau.
4 Annog diddordeb mewn cymunedau lleol a thrafodaethau amdanynt.
5 Adlewyrchu'r gwahanol gredoau crefyddol a chredoau eraill yn y DU.
6 Darparu cynnwys mewn ieithoedd lleiafrifol.

Perfformiad o'i gymharu â'r diben

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus Ymddiriedolaeth y BBC ar y modd y cyflawnir y dibenion cyhoeddus i'r casgliad bod y cyhoedd yn fodlon iawn â rhaglenni'r BBC ar y cyfan. Bwletinau newyddion cenedlaethol a rhanbarthol y BBC gyda'r nos yw'r rhaglenni newyddion mwyaf poblogaidd yn y DU ac mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi'n fawr, ond mae niferoedd y gynulleidfa yn gyffredinol yn lleihau.

Ar y cyfan, dangosodd ymchwil yr Ymddiriedolaeth nad hon yw'r brif flaenoriaeth i dalwyr ffi'r drwydded, ond ei fod yn rhan hanfodol o gylch gwaith y BBC a bod angen mynd i'r afael â rhai bylchau sylweddol:

- Mae'r gynulleidfa'n nodi angen clir i wella'r flaenoriaeth i gynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau i weddill y DU (blaenoriaeth 1), yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd Lloegr.
- Mae talwyr ffi'r drwydded hefyd yn nodi y gallai'r BBC wella'i pherfformiad o ran darparu amrywiaeth o raglenni i ddiwallu anghenion y gwledydd, y rhanbarthau a'r cymunedau (blaenoriaeth 2).
- Er nad yw'r flaenoriaeth i adlewyrchu gwahanol gredoau crefyddol a chredoau eraill yn y DU (blaenoriaeth 5) yn hynod bwysig i dalwyr ffi'r drwydded, maen nhw'n nodi bod yna fwlch cymharol eang yn y maes hwn.
- Mae ymchwil yr Ymddiriedolaeth ar y flaenoriaeth i ddarparu rhaglenni mewn ieithoedd lleiafrifol brodorol (blaenoriaeth 6) yn nodi bod yna bryderon ynglŷn â lefelau'r ddarpariaeth mewn ieithoedd brodorol yng Ngogledd Iwerddon yn enwedig, lle mae cefnogaeth ar gyfer cynnydd yn gryf iawn ymhlith pobl â gwybodaeth am y Wyddeleg neu Sgoteg Ulster neu bobl sy'n uniaethu â'r rhain neu ag unrhyw ddiddordeb ynddynt.

Ymateb y tîm rheoli i'r bylchau

Mae hi'n bwysig bod y BBC yn darparu cynnwys unigryw a pherthnasol o safon uchel i dalwyr ffi'r drwydded, gan helpu i gynnal niferoedd y gynulleidfa a darparu llwyfan effeithiol ar gyfer adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau ledled y DU. Er mwyn cyflawni'r diben hwn, mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth o raglenni pwrpasol o bob math ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr ar y teledu, radio ac ar-lein.

Er eu bod yn wynebu rhai heriau cyffredin, mae'n rhaid i unrhyw ystyriaeth o ddarpariaeth y BBC ar gyfer gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr gydnabod nad yw'r darlun yr un fath ymhobman. Oherwydd eu gwahanol sefydliadau gwleidyddol, mae yna wahaniaeth clir rhwng y gwledydd fel grŵp a rhanbarthau Lloegr. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried y gwledydd yn grŵp unffurf ychwaith – mae yna wahaniaethau pwysig rhyngddynt.

BBC One a BBC Two yw'r gwasanaethau pwysicaf o hyd ar gyfer darparu i gynulleidfaoedd eang, a bydd buddsoddiad arfaethedig yn darparu gwerth i gynulleidfaoedd ledled y DU. Mae'r cynigion yn cynnwys rhaglenni drama a chomedi newydd, gwell rhaglenni newyddion yn ystod oriau brig ar BBC One a buddsoddi mewn gwybodaeth ar BBC One a BBC Two.

Hefyd, mae gan y BBC nifer o gynigion penodol (bydd angen cymeradwyaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC cyn rhoi rhai ohonynt ar waith) o ran gwella'r ffordd y mae'r BBC yn cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau a'i darpariaeth ar eu cyfer:

Cynyddu nifer y rhaglenni teledu rhwydwaith o bob cwr o'r DU

- Bydd y BBC yn rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod canolfannau cynhyrchu'r BBC ledled y wlad yn greadigol gynaliadwy yn yr hirdymor, gan gynnwys symud cyfresi teledu rhwydwaith sy'n dychwelyd. Bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau bod y BBC yn gallu bodloni ei hymrwymiadau cyhoeddus mewn perthynas â chyfran y rhaglenni rhwydwaith a wneir y tu allan i Lundain ac yn y tair gwlad, ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodir gan gynulleidfaoedd o ran cynrychiolaeth a thegwch ledled y DU.

Sicrhau cynrychiolaeth gytbwys o'r gwledydd a'r rhanbarthau ar newyddion rhwydwaith

- Bydd rhaglenni newyddion rhwydwaith y BBC yn adrodd yn effeithiol ar y DU ar ei newydd wedd a'r sefyllfa wirioneddol ers datganoli. Byddant yn adlewyrchu safbwyntiau o bob cwr o'r gwledydd a'r rhanbarthau ac yn esbonio gwahaniaethau polisi. Mae'r BBC wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod y rhaglenni newyddion y mae'n eu darparu ar gyfer y DU gyfan yn fwy cywir, cytbwys a pherthnasol, ond mae yna le am ragor o welliant o ran y rhaglenni a'r dulliau casglu newyddion.

Cryfhau darpariaeth ar gais i gymunedau lleol

- Bydd gwell darpariaeth amlgyfrwng band eang yn cynnig cynnwys mwy perthnasol, gwerthfawr ac unigryw i gynulleidfaoedd lleol ledled y DU. Bydd yn bennaf seiliedig ar batrwm cyfredol y BBC o wasanaethau radio a rhyngrwyd lleol, gan gwmpasu newyddion, chwaraeon, tywydd a gwybodaeth deithio leol, yn ogystal â rhoi llwyfan i raglenni llinol y BBC a gwell cysylltiadau â'r we ehangach. Bydd angen cymeradwyaeth reoliadol gan Ymddiriedolaeth y BBC cyn ehangu'r ddarpariaeth fideo ar-lein ym maes newyddion lleol a meysydd cysylltiedig â newyddion.

Gwell darpariaeth i'r gwledydd

- Bydd y BBC yn canolbwyntio ar yr amrywiaeth o raglenni ar wahân i newyddion a gynhyrchir gan y gwledydd i gymryd lle rhaglenni rhwydwaith ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd, ac yn lleihau nifer y rhaglenni nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi gymaint. Hwyrach y bydd y strategaeth 'llai a gwell' yn arwain at lai o raglenni, ond dylent fod yn fwy trawiadol. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn gwella'r ddarpariaeth amlgyfrwng i gynulleidfaoedd y gwledydd, yn enwedig mewn mathau o raglenni sy'n gwella gwybodaeth fel hanes a cherddoriaeth.
- Bydd fideos planedig, clipiau sain ar gais a gwell dulliau chwilio a dadansoddi'n gwella adrannau'r gwledydd ar bbc.co.uk/news. Hefyd, caiff y rhaglenni newyddion allweddol ar gyfer y gwledydd datganoledig eu datblygu fel brandiau amlgyfrwng.

Gwella cefnogaeth y BBC ar gyfer ieithoedd brodorol

- Mae'r BBC wedi ymrwymo i gefnogi ieithoedd brodorol trwy wahanol fentrau darlledu, er enghraifft sianel deledu Gaeleg ddigidol yn yr Alban, y bartneriaeth strategol newydd gydag S4C a datblygu amserlen Radio Cymru, ac ymrwymiad ariannu aml-lwyfan ychwanegol i'r Wyddeleg a Sgoteg Ulster yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y gwasanaethau hyn yn cefnogi rhaglenni gwreiddiol, yn helpu i feithrin y sail gynhyrchu mewn ieithoedd brodorol ac yn sicrhau

bod y BBC yn gwneud cyfraniad amlwg at gefnogi amrywiaeth, hunaniaeth a mynegiant diwylliannol.

Datblygu ffyrdd newydd o adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau eraill

- Bydd y BBC yn gwella'r ffordd y mae'n adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau eraill ei chynulleidfaoedd trwy feithrin cymunedau ar-lein, arloesi gyda ffyrdd newydd o gyflwyno crefydd i gynulleidfaoedd yn ei rhaglenni teledu rhwydwaith a thrwy ymrwymiad gorsafoedd radio lleol a rhwydwaith i grefydd. Bydd materion crefyddol hefyd yn cael sylw mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes.

Er bod setliad ffi'r drwydded wedi golygu y bu raid cyfyngu ar rai uchelgeisiau, mae tîm rheoli'r BBC yn ystyried y bydd y cynigion hyn yn gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau y gellir cyflawni'r diben hwn yn y dyfodol a lleihau'r bylchau sydd wedi'u nodi.

Cyflawni blaenoriaethau'r diben

1 Cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau i weddill y DU

Ymddiriedolaeth y BBC: "Ar draws cynnyrch ei rhwydwaith, dylai'r BBC bortreadu a dathlu'r ystod o ddiwylliannau a chymunedau ar draws y DU, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol."

Bydd y BBC yn datblygu, comisiynu, cynhyrchu a darlledu amrywiaeth o raglenni a chynnwys ledled ei phortffolio o wasanaethau i ddiwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU.

Bydd gwasanaethau rhwydwaith teledu'n gweithio gyda chydweithwyr o bob cwr o'r DU i greu a darlledu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau, diddordebau a phrofiadau eu cynulleidfaoedd, a byddant yn parhau i gynnwys cyfraniadau yng nghraidd yr amserlen – megis drama o Gymru, materion cyfoes o Ogledd Iwerddon, rhaglenni plant o'r Alban a'r chwaraeon gorau, ym mhle bynnag maen nhw'n digwydd ar draws y DU.

Bydd y BBC yn rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod canolfannau cynhyrchu'r BBC ledled y wlad yn greadigol gynaliadwy yn yr hirdymor, gan gynnwys symud cyfresi teledu rhwydwaith sy'n dychwelyd a gweithio gyda'r sector cynhyrchu annibynnol ledled y DU. Bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau bod y BBC yn gallu bodloni ei hymrwymiadau cyhoeddus mewn perthynas â lefel y rhaglenni rhwydwaith a wneir y tu allan i Lundain ac yn y tair gwlad, ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodir gan gynulleidfaoedd o ran cynrychiolaeth a thegwch ledled y DU.

Bydd BBC One a BBC Two yn sicrhau bod cyfran sylweddol o'u horiau darlledu'n adlewyrchu a chynrychioli amrywiaeth eu cynulleidfa yn ystod oriau brig a'r oriau y naill ochr i'r oriau brig. Bydd BBC One yn darlledu dramâu sydd wedi'u lleoli'r tu allan i Lundain, gan ddefnyddio lleisiau ac wynebau o bob math o gefndiroedd rhanbarthol ac ethnig a chymunedau diddordeb, a bydd yn cynnwys crefydd a moeseg fel rhan o'i chymysgedd o wahanol fathau o raglenni.

Bydd y gwledydd yn parhau i allu dewis rhwng darlledu'r amserlen genedlaethol neu ddarlledu eu rhaglenni lleol eu hunain, a symud rhaglenni rhwydwaith i fannau eraill yn yr amserlen sy'n fwy priodol ar gyfer anghenion lleol.

Ym maes newyddion, bydd rhwydwaith y BBC o newyddiadurwyr yn adrodd ar ddigwyddiadau yn y DU, a hynny o'r mannau dan sylw yn aml iawn. Ar BBC One ac ar y BBC News Channel a Radio 5 Live, bydd straeon perthnasol yn cael sylw rhanbarthol cryf a darperir safbwyntiau o bob rhan o'r DU. Bydd y BBC News Channel yn defnyddio gohebwyr mewn ystafelloedd newyddion rhanbarthol a chenedlaethol yn rheolaidd. Wrth roi sylw i straeon mawr yn y DU, bydd y BBC yn adlewyrchu'r ffaith y gallai straeon newyddion gael gwahanol effaith mewn gwahanol rannau o'r wlad trwy geisio cynnwys safbwyntiau neu enghreifftiau o bob rhan o'r DU.

Bydd y BBC yn ymgysylltu ag arbenigwyr er mwyn amlygu'r gwahaniaethau mewn safbwyntiau a sylwadau ledled y DU. Ar y radio yn enwedig, bydd yn rhoi llais i'r amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan wrandawyr. Bydd rhaglenni materion cyfoes Radio Two yn adlewyrchu amrywiaeth y DU a, thrwy ei rhaglenni dogfen a nodwedd, bydd Radio 4 yn archwilio grwpiau ethnig, diwylliannol a

chrefyddol, gan roi cyfle i'r gymuned ehangach ddeall eu harferion, eu hargyhoeddiadau a'u pryderon.

Bydd Radio 5 Live yn rheolaidd yn darlledu rhaglenni newyddion a chwaraeon ar leoliad yn y gwledydd a'r rhanbarthau a bydd ei rhaglenni dyddiol, lle gall y gwrandawyr ffonio i roi sylwadau, yn annog trafodaeth ac yn adlewyrchu safbwyntiau o bob cwr o'r DU. Ar draws holl orsafoedd radio y BBC, bydd ystod y gerddoriaeth a chwaraeir yn adlewyrchu'r amrywiaeth o arddulliau ac artistiaid yn y DU, a bydd artistiaid newydd dawnus o'r DU yn cael cefnogaeth.

Bydd bbc.co.uk yn darparu llwyfan cenedlaethol lle gall cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU rannu eu sylwadau, a bydd yn sicrhau bod cynnwys o bob gwlad a rhanbarth yn y DU ar gael i'r cynulleidfaoedd, ble bynnag maen nhw'n byw.

Bydd y BBC yn recordio a darlledu perfformiadau o bob gwlad a rhanbarth yn y DU, gan eu darparu, a cheisio sicrhau eu bod ar gael yn llawn i bobl ag anghenion ychwanegol, ar y llwyfan mwyaf perthnasol - teledu, radio neu ar-lein, neu gyfuniad fel gyda'r prif ddigwyddiadau cerddoriaeth - ac ymestyn y cyfle i ail-wylio neu ailwrando (yn amodol ar hawliau). Bydd Radio 3 yn cyflwyno perfformiadau cerddorol gan gerddorfeydd a grwpiau opera ac o wyliau ledled y DU.

Bydd gorsafoedd radio lleol a'r gwledydd a BBC Asian Network yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol maen nhw'n eu gwasanaethu yn eu rhaglenni ac yn y digwyddiadau, y seremonïau a'r pen-blwyddi a gwmpesir. Byddant hefyd yn ceisio adlewyrchu cymunedau lleol amrywiol trwy'r cyflwynwyr, y cyfranwyr a'r cyfranogwyr sy'n gyfrifol am greu a darlledu'r rhaglenni.

2 Darparu ar gyfer gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC ddarparu ystod o gynnyrch, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol, a hwnnw wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU."

Mae gan y BBC rwydwaith o wasanaethau ledled y DU sy'n darparu amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu diddordebau gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. Bydd BBC One a BBC Two yn parhau i gynnig rhaglenni o bob math a gynhyrchir yn lleol, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol a chenedlaethol ar BBC One (a ategir gan wasanaeth gwybodaeth trwy BBCi) a rhaglenni i blant ar BBC Two sy'n ceisio adlewyrchu'r gwahanol wyliau ysgol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd y BBC yn darparu amrywiaeth o raglenni newyddion a materion cyfoes ar y teledu, ar y radio ac ar-lein ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n adlewyrchu eu gwahanol sefydliadau gwleidyddol a'u natur ddiwylliannol. (Gweler y cynllun diben ar gyfer Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil.) Bydd hefyd yn cynnig rhaglenni newyddion, materion cyfoes a gwleidyddiaeth o safon uchel ar gyfer rhanbarthau Lloegr. Fel yr amlinellir uchod, bydd gwell darpariaeth newyddion ar-lein gyda deunydd fideo lleol (yn amodol ar gymeradwyaeth rheoliadol gan Ymddiriedolaeth y BBC) yn darparu cynnwys mwy perthnasol ac unigryw a fydd yn cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaoedd lleol ledled y DU.

Fel ymrwymiad i economi creadigol y DU, bydd y BBC yn cynhyrchu cyfran uchel o raglenni rhanbarthol ar gyfer pob llwyfan yn yr ardal berthnasol. Bydd BBC One a BBC Two yn archwilio sawl agwedd ar amrywiaeth y DU, gan gynnwys crefydd, moeseg a'r materion sy'n wynebu grwpiau lleiafrifol a chymunedau diddordeb. Darlledir rhywfaint o'r cynnwys hwn yn ystod oriau brig.

Bydd gwasanaethau'r BBC ar gyfer y gwledydd datganoledig yn chwarae rhan bwysig wrth geisio gwasanaethu cynulleidfaoedd â gwahanol deyrngarwch gwleidyddol. Bydd rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn rhoi sylw i fywyd sifil a gwleidyddol, yn darparu cyd-destun ar gyfer y materion dan sylw ac yn rhoi pwyslais arbennig ar adroddiadau awdurdodol a dadansoddiadau o'r broses wleidyddol. Bydd rhaglenni BBC One ar gyfer y gwledydd yn darparu llwyfan i ddod â phob gwlad ynghyd ar gyfer digwyddiadau o arwyddocâd penodol. Trwy eu rhaglenni drama, comedi,

chwaraeon a'r celfyddydau, bydd BBC Wales, BBC Scotland a BBC Northern Ireland yn ceisio adlewyrchu hanes a diwylliant cyfoes pob gwlad.

Bydd gorsafoedd radio lleol y BBC a'r rhai ar gyfer y gwledydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am straeon newyddion y dydd ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gymunedau – teithio a'r tywydd – yn rheolaidd yn ystod y dydd. Byddant hefyd yn darparu newyddiaduraeth o safon, y gellir ymddiried ynddi, ym maes chwaraeon a chwaraeon byw, a bydd pryderon lleol a chymunedol yn ganolog i'w rhaglenni. Bydd gorsafoedd radio'r gwledydd yn adlewyrchu cymunedau, diwylliannau a chredoau amrywiol y gwledydd datganoledig.

Nid yw pob cymuned yn seiliedig ar ddaearyddiaeth. Mae'r BBC mewn sefyllfa gref i gefnogi diddordebau ac anghenion gwahanol grwpiau wrth i'r DU ddatblygu'n gymdeithas fwy amrywiol ac amlddiwylliannol. Bydd yr Asian Network yn mynd i'r afael ag anghenion a diddordebau amrywiaeth eang o gymunedau Asiaidd yn y DU; bydd Radio 5 Live a 5 Live Sports Extra yn uno cefnogwyr chwaraeon ble bynnag maen nhw'n byw; a bydd y gorsafoedd radio cerddoriaeth yn rhoi cyfle i wrandawyr drafod materion yn ymwneud â cherddoriaeth a rhannu profiadau. Bydd Radio 3 a BBC Four yn parhau i recordio a darlledu perfformiadau o bob gwlad a rhanbarth yn y DU, gan gynnwys rhai nad ydynt yn rhan o'r brif ffrwd fel jazz.

3 Dod â phobl ynghyd i rannu profiadau

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC ddarlledu rhaglenni unigol sy'n dwyn ynghyd ystod eang iawn o bobl – er enghraifft, digwyddiadau mawr y wladwriaeth, digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol o bwys ac adloniant o safon uchel."

Oherwydd ei maint a'i chwmpas, mae gan y BBC gyfraniad pwysig i'w wneud o ran helpu i ddod â phobl o gefndiroedd amrywiol ynghyd i rannu profiadau sy'n pontio bylchau posibl (er enghraifft, oedran, dosbarth, ffydd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu alluoedd amrywiol). Ar BBC One, bydd cynulleidfaoedd mawr – o fewn ac ar draws y gwledydd – yn dod ynghyd i wylio digwyddiadau mawr fel chwaraeon ac achlysuron diwylliannol a cherddorol. Bydd achlysuron mawr y wladwriaeth sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd yn parhau i dderbyn sylw llawn ar sianeli teledu a gorsafoedd radio'r BBC.

O ran y sianeli teledu, BBC One a BBC Two fydd yn darlledu chwaraeon o hyd, wedi'u hamseru i ddiwallu anghenion y gynulleidfa a rhoi sylw i'r digwyddiadau mwyaf yn y calendr blynyddol. (Gweler y cynllun diben ar gyfer Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol am ragor o fanylion am chwaraeon.) Bydd chwaraeon yn parhau'n rhan allweddol o raglenni Radio 5 Live a 5 Live Sports Extra. Bydd y BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o chwaraeon sy'n adlewyrchu diddordebau cynulleidfaoedd, o chwaraeon cenedlaethol poblogaidd fel pêl-droed a rygbi i chwaraeon lleiafrifol mwy lleol sy'n cael eu dilyn gan gefnogwyr ffyddlon. Bydd gorsafoedd radio lleol a rhai'r gwledydd yn cwmpasu pob math o chwaraeon o bob cwr o'r DU. Gemau Olympaidd Llundain yn 2012 fydd y digwyddiad mwyaf i'r BBC ymdrin ag ef yn ei hanes. Mae'n gyfle unigryw i ddod â chwaraeon, diwylliant a'n profiad cenedlaethol ynghyd ledled y DU.

Bydd cerddoriaeth fyw ar orsafoedd radio cerddoriaeth y BBC ac, ar adegau, ar y teledu, yn parhau i wneud cyfraniad pwysig o ran dod â phobl ynghyd. Bydd rhaglenni helaeth Radio 1 ar gerddoriaeth fyw yn creu cysylltiad uniongyrchol rhwng yr orsaf a'i gwrandawyr ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gerddoriaeth sy'n cael ei mwynhau yn y DU.

4 Annog diddordeb mewn cymunedau lleol a thrafodaethau amdanynt

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC ddarparu cynnyrch deniadol sy'n rhoi darlun cywir o'r llu o gymunedau sy'n ffurfio'r DU, sy'n goleuo dealltwriaeth ac yn ysgogi trafodaeth am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Dylai'r BBC ddarparu fforymau i'r cymunedau hyn drafod ymhlith ei gilydd a chyda chymunedau eraill y DU."

Ledled ei phortffolio o wasanaethau a rhaglenni, bydd y BBC yn ceisio cyflawni'r flaenoriaeth hon mewn sawl ffordd:

- Bydd rhaglenni newyddion a materion cyfoes lleol a rhai'r gwledydd yn hyrwyddo trafodaeth wybodus ac yn galluogi cynulleidfaoedd i wella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cymunedau eu hunain a chymunedau eraill.
- Bydd y rhaglenni'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y DU ac yn archwilio grwpiau ethnig, diwylliannol, crefyddol ac anghrefyddol, gan alluogi'r gymuned ehangach i ddeall eu harferion, eu hargyhoeddiadau a'u pryderon.
- Bydd gorsafoedd radio lleol a rhai'r gwledydd yn adlewyrchu pryderon gwahanol gymunedau ac yn rhoi cyfle i wrandawyr ffonio i roi eu sylwadau ac i drafod, gan sicrhau bod anghenion mynediad a chyfathrebu ychwanegol yn cael eu diwallu.
- Bydd bbc.co.uk yn gwneud cyfraniad pwysig o ran galluogi pobl i gyfathrebu o fewn cymunedau a rhwng gwahanol gymunedau sy'n rhannu diddordebau a thrwy ganiatáu i gynulleidfaoedd weld a chyfrannu cynnwys. Darperir fforymau ar-lein lle gall defnyddwyr drafod a mynegi barn.
- Bydd y BBC yn rhoi sylw helaeth i wyliau cerddoriaeth fyw a digwyddiadau eraill, gan gynnwys chwaraeon, a bydd ei gallu i uno pobl a chymunedau o ddiddordeb yn ddiguro yn hyn o beth.
- Bydd Radio 2 yn hwyluso twf cymunedau diddordeb, yn enwedig mewn perthynas â cherddoriaeth, ac yn galluogi pobl i gysylltu â'r orsaf a'i gilydd, a bydd 1Xtra yn dwyn ynghyd yr ystod o ddiwylliannau a cherddoriaeth ddu a fwynheir gan ei chynulleidfa ifanc. Bydd yr Asian Network hefyd yn hwyluso a chefnogi twf cymunedau diddordeb.
- Dylai rhaglenni lleol y BBC a'r rhai ar gyfer y gwledydd a'r DU gyfan gyflwyno pob math o leisiau ar yr awyr a chyflogi pobl o ystod eang o gefndiroedd a galluoedd.

5 Adlewyrchu'r gwahanol gredoau crefyddol a chredoau eraill yn y DU

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC roi cyfleoedd i bobl ddeall credoau pobl eraill, ac i archwilio'u credoau eu hunain yn feirniadol."

Yn ogystal â rhaglenni crefyddol penodol ar y teledu a'r radio, bydd rhaglenni newyddion a materion cyfoes y BBC yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd ddeall credoau pobl eraill ac yn rhoi sylw i'r cyfraniad allweddol a wneir gan grefydd mewn perthynas â materion y byd.

Bydd gan wasanaethau radio'r BBC gyfraniad pwysig i'w wneud o ran cysylltu â phobl sydd â diddordeb mewn ffydd, addoli a materion cysylltiedig. Bydd Radio 2, er enghraifft, yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gredoau yn y DU yn ei rhaglenni crefyddol rheolaidd, a bydd Radio 3 yn darlledu gwasanaethau crefyddol gydag elfen gerddorol gref. Bydd Radio 4 yn darparu rhaglenni ar addoliad ac adroddiadau trylwyr ar faterion crefyddol ym mhob prif ffydd, gan ddefnyddio'i rhaglenni i archwilio gwahanol fathau o ffydd a'u harferion ac amlygu'r gwahanol gredoau o fewn a rhwng cymunedau ffydd. Bydd y BBC yn annog a chefnogi pobl yn gyson i archwilio'u credoau eu hunain mewn ffordd feirniadol. Trafodir materion moesegol a moesol ar draws ei rhaglenni llafar.

Bydd BBC One yn rhoi sylw i grefydd, gan gynnwys rhai rhaglenni crefyddol o bwys yn ystod oriau brig. Caiff gwyliau Cristnogol arwyddocaol fel y Pasg a'r Nadolig a dathliadau blynyddol cenedlaethol pwysig fel Sul y Cofio eu nodi ar BBC One. Trwy ei chynnyrch ar y teledu, bydd y BBC yn ceisio rhoi sylw i Gristnogaeth y tu hwnt i'r prif wyliau. Ar draws y portffolio teledu, bydd y sylw rheolaidd a roddir i berfformiadau cerddoriaeth yn adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn mynegi eu ffydd.

Bydd gorsafoedd radio lleol y BBC a rhai'r gwledydd yn darlledu cynnwys crefyddol sy'n adlewyrchu'r gwahanol fathau o ffydd yn eu cymunedau perthnasol a byddant yn parhau i ddarparu cynnyrch crefyddol ar ddydd Sul.

Bydd bbc.co.uk yn wefan lle gall pobl o wahanol gredoau a ffydd greu cymunedau ar-lein. Mae adrannau ffydd ar bob un o adrannau rhyngrwyd lleol y BBC.

Bydd crefyddau lleiafrifol yn y DU (gan gynnwys prif systemau cred Iddewiaeth, Hindwaeth, Sikhiaeth, Islam a Bwdhaeth), yn ogystal â chredoau seciwlar, yn cael sylw prif ffrwd. Er y bydd yr

Asian Network yn rhoi sylw i grefydd a gwyliau sy'n berthnasol i'w chynulleidfaoedd, bydd crefyddau lleiafrifol hefyd yn cael sylw ar wasanaethau eraill, fel Radio 4, BBC One a BBC Two.

6 Darparu cynnwys mewn ieithoedd lleiafrifol

Ymddiriedolaeth y BBC: "Yn ei chynnyrch, dylai'r BBC gefnogi ieithoedd cynhenid y DU lle bo hynny'n briodol. Gall hefyd ddarparu cynnyrch mewn ieithoedd eraill a ddefnyddir gan bobl sy'n talu ffi'r drwydded mewn cyd-destunau priodol."

Yn ei chynnyrch a'i gwasanaethau, bydd y BBC yn cefnogi prif ieithoedd lleiafrifol brodorol y DU: Gaeleg, Cymraeg, Gwyddeleg a Sgoteg Ulster.

Mae Radio nan Gàidheal yn darlledu rhaglenni Gaeleg ledled yr Alban, a bydd y Gwasanaeth Digidol Gaeleg newydd ar gael ar lwyfannau teledu digidol bob dydd ledled y DU. Bydd y ddau wasanaeth yn adlewyrchu bywydau gwrandawyr a gwylwyr ac yn cwmpasu digwyddiadau, seremonïau a dathliadau sy'n arwyddocaol i'r gymuned Aeleg, fel y bo hynny'n briodol yn olygyddol. Bydd BBC Two yn yr Alban yn parhau i ddarparu cynnwys Gaeleg yn y bore yn ystod yr wythnos i blant cyn oedran ysgol, a bydd yn cynnig pob math o raglenni Gaeleg yn ei hamserlen tan 2010 o leiaf. Er mai prin yw'r dystiolaeth o alw am ddarpariaeth bwrpasol mewn Sgoteg, mae'r iaith i'w chlywed ar draws rhaglenni BBC Scotland – er enghraifft, anogir holl gyflwynwyr BBC Scotland i ddefnyddio'u patrymau llefaru naturiol.

Yng Nghymru, mae yna bartneriaeth strategol newydd ar waith gydag S4C. Bydd amserlen Radio Cymru'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau, diwylliannau a chredoau yng Nghymru. Bydd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau allweddol ac yn cynnwys amrywiaeth o fathau o raglenni yn ei hamserlen sy'n adlewyrchu diddordebau prif ffrwd ei gwrandawyr – ond yn y Gymraeg. Bydd y BBC yn parhau i weithio gydag S4C i ddarparu rhaglenni teledu Cymraeg.

Mae BBC Northern Ireland wedi ymrwymo i gynyddu ystod, effaith, nifer a gwerth ei rhaglenni yn y Wyddeleg a Sgoteg Ulster. Bydd darpariaeth ar-lein yn rhan bwysig o'r strategaeth. Ar BBC Two y dangosir y rhan fwyaf o raglenni iaith ar gyfer cynulleidfaoedd teledu lleol. Bydd rhaglenni radio'n mynd i'r afael ag anghenion y rheini sy'n siarad ac yn dysgu'r iaith, a byddant yn elwa ar well gwasanaeth cymorth cysylltiedig ar y we.

Bydd amrywiaeth eang o gerddoriaeth yn cael ei chwarae ar bob gwasanaeth, gan sicrhau bod y gorsafoedd yn hygyrch i gynulleidfaoedd eraill nad ydynt yn siarad yr iaith.

Mae yna hefyd gyfleoedd i ddatblygu agweddau mwy cydweithredol at raglenni ieithoedd lleiafrifol brodorol ledled y DU ac Iwerddon, gan weithio mwy mewn partneriaethau, cynnal gweithgareddau ar y cyd a rhannu arfer gorau.

Yn hanesyddol, mae'r BBC wedi darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol brodorol nad ydynt yn gynhenid i'r DU, a bydd yn parhau i wneud hynny lle bo'n briodol, megis ar BBC Asian Network. Er mai yn Saesneg yn bennaf y darlledir yr Asian Network, mae hefyd yn darparu rhaglenni mewn amrywiaeth o ieithoedd De Asia (Hindi/Urdu, Bengali, Mirpuri a Punjabi), gan gysylltu gwrandawyr â'i gilydd ac â'u gwreiddiau diwylliannol ac ieithyddol.

Cynhyrchir rhaglenni mewn amrywiaeth o ieithoedd lleiafrifol gan orsafoedd radio lleol yn Lloegr mewn ymateb i anghenion y gynulleidfa leol. Mae'r ieithoedd hyn yn cynnwys Bengali, Urdu, Punjabi a Hindi a Chantoneg. Mae gorsafoedd radio lleol yn rhannu cynnwys mewn ieithoedd lleiafrifol gyda'r Asian Network lle bo hynny'n briodol. Hefyd, mae gwasanaethau iaith niferus y BBC World Service ar gael i wrandawyr yn y DU trwy'r rhyngrwyd.